# UNIGOLION



**Gall pob unigolyn wneud rhywbeth i helpu bioamrywiaeth – gall gweithredoedd bach wneud gwahaniaeth mawr. Gall gweithredoedd er budd natur fod yn wych i chi hefyd. Gallech elwa trwy fwynhau sŵn cân yr adar, gweld gloÿnnod byw hardd neu gael y cynnig o gysgod gan goed.**

## Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch helpu:

- helpu grŵp cadwraeth lleol i greu lleoedd i natur ffynnu ynddynt
- gwneud eich gardd yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt trwy greu ardaloedd o flodau gwyllt neu blannu coed a llwyni llawn neithdar a phaill
- rhoi'r gorau i ddefnyddio cemegau i niweidio pethau yn eich gardd
- dweud wrth eraill am y fioamrywiaeth a welwch neu a glywch yn eich ardal leol. Gallwch wneud hyn ag ap ar eich ffôn neu drwy rannu eich lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol
- gofyn i'ch gwleidydd lleol beth sy'n cael ei wneud yn eich ardal i gynnal a gwella bioamrywiaeth
- cael eich ysbrydoli gan natur – os byddwch yn ysgrifennu, yn tynnu llun, yn pwytho neu'n peintio – archwiliwch y modd y gall eich amgylchedd lleol ysgogi eich creadigrwydd
- arbed–ailddefnyddio–ailgylchu





Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth Natur Sir Gâr • Carmarthenshire Nature Partnership

# DARGANFOD

Os ydych am ddarganfod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, bydd gwefan Aderyn yn eich helpu. Gallwch fewnbynnu eich cod post a bydd yn dweud wrthych beth sydd wedi'i gofnodi yn eich ardal, neu gallwch chwilio am rywogaethau penodol i weld pa mor brin neu gyffredin yw rhywbeth yng Nghymru. **https://aderyn.lercwales.org.uk**

Dewch i adnabod eich ardal leol i weld pa gyfleoedd sydd gennych i gyfoethogi'r bywyd gwyllt yno. Pa ddarn o laswelltir y gellid gadael iddo dyfu, ble y gallech blannu ychydig o goed, ble y gallech greu pwll dŵr neu bentwr coed?






# RHEOLI

Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau y gallech eu cymryd ar eich safle.
Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

# CREU

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd cysylltiedig. Gallwch gweithio gyda nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno neu creuwch ardd bywyd gwyllt gyda planhigion peillwyr cyfeillgar..





# DIOGELU

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr a pheidiwch â defnyddio mawn – defnyddiwch ddewisiadau mawn eraill a helpwch i achub ein mawnogydd gwerthfawr. Cymerwch ran mewn prosiect bywyd gwyllt lleol a gwarchodwch eich safleoedd bywyd gwyllt lleol.

**I gael rhagor o fanylion edrychwch ar:**

- Darganfyddwch fwy am natur yn Sir Gaerfyrddin yn Bioamrywiaeth
- Cysylltwch â Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk am ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer e-byst Newyddion Natur.
- Adnoddau ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

